YSGOL Y GORLAN

TREMADOG

Ysgol gynradd ddyddiol, gydaddysgol ddwyieithog

Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni 2021-2022

-

Pennaeth : Mrs Eleri M Davies

Cadeirydd y Corff Llywodraethol: Mr Rhys Pugh

"Bwydo'r galon i fwydo'r dysgu"

Gair gan y Cadeirydd

Annwyl Riant/Gwarchodwr,

Pleser yw cyflwyno adroddiad blynyddol 2021-2022 Ysgol y Gorlan i'n cymuned. Bu llynedd yn flwyddyn heriol iawn i bawb, ond rwy'n falch o gael rhannu trosolwg o waith yr ysgol i chi dros y flwyddyn; ei llwyddiannau a'i hamcanion ar gyfer y flwyddyn nesaf. Yn ffurfiol, mae'r adroddiad yn cwmpasu'r flwyddyn addysgol 2021-2022, ond rydym yn manteisio ar cyfle i rannu'r holl ddablygiadau hyd at heddiw. Mae'n statudol i mi ddatgan unrhyw wariant ar gyfer costau teithio neu gynhaliaeth y Llywodraethwyr; gallaf gadarnau nad oedd unrhyw wariant o gwbl.

Hoffwn yn gyntaf ddiolch i chi, ein rhieni/gwarchodwyr am eich parodrwydd i gyd-weithio a chefnogi'r ysgol mewn cymaint o ffyrdd gwahanol. Hoffwn hefyd ddiolch i holl staff yr ysgol am eu gwaith di-flino a'u hymroddiad tuag at ein plant gan sicrhau profiadau arbennig iawn iddynt wrth i fywyd ddechrau dychwelyd yn ôl i'r arfer. Diolch hefyd i fy nghyd-aelodau o'r Corff Llywodraethol am eu hamser a'u gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn bwysicaf oll, hoffwn ddiolch i'n disgyblion bendigedig; ni fuasai'r ysgol yn unrhywbeth hebddoch chi!

Bu sawl newid dros y flwyddyn ddiwethaf yma yn y Gorlan; rydym yn llongyfarch Mrs Carys Jones ar enedigaeth ail blentyn, ac yn llongyfarch Miss Bethan Jones ar dderbyn secondiad fel Athrawes yn y Ganolfan Iaith, ble y bu yn hybu a dysgu Cymraeg i blant di-Gymraeg yr ardal. Croesawom Miss Stephanie Grimes i gymryd lle Miss Jones dros-dro, ac yn diolch i Mr Iolo Jones am gymryd yr awenau fel Pennaeth Cynorthwyol yn ystod cyfnod mamolaeth Mrs Jones.

Diolch hefyd i'r holl staff am daith gynhwysfawr o amgylch yr ysgol, fel cyflwyniad i'r Cwricwlwm newydd yng Nghymru sydd ar waith ers Medi 2022 ymlaen. Fel y gwyddoch, gwnaethpwyd y penderfyniad rhwng yr ysgol a'r Llywodraethwyr i ail-strwythuro trefn dosbarthiadau eleni er mwyn sicrhau sefydlogrwydd a chysondeb i blant, a'r staff. Yn dilyn dwy flynedd ysbeidiol o newid a thryswch, rydym yn gobeithio bydd y newid hwn yn gwneud y mwyaf o'r amser yn effeithiol, gan osgoi y cyfnod o blant a staff yn gorfod dod i adnabod ei gilydd yn well mewn dosbarth newydd. Yn ogystal â hyn, mae'r sefydlogrwydd a'r cysondeb hwn yn hanfodol i sicrhau llês ein plant yn dilyn cyfnod mor heriol.

Fel pob amser, rydym yn croesawu unrhyw adborth, sylwadau, neu syniadau gan ein cymuned ysgol, felly os oes ganddoch chi unrhyw beth i rannu, mae croeso i chi gysylltu â mi drwy law Clerc y Llywodraethwyr. Edrychaf ymlaen at adeiladu ar lwyddiannau'r Gorlan, ac at flwyddyn cyffrous o groesawu'r Cwricwlwm newydd.

Gyda dymuniadau gorau i chi am y flwyddyn,

Rhys Pugh.

Gair gan y Pennaeth

Annwyl Rieni/Gwarchodwyr,

Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i chi am eich holl gefnogaeth dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym yn hynod ffodus o gael plant mor arbennig yma fel disgyblion yma yn y Gorlan, felly hyderaf eu bod yn hapus, yn datblygu'n addysgol, emosiynol a chymdeithasol. Ein gweledigaeth yma yn yr ysgol yw "bwydo'r galon i fwydo'r dysgu", ac mae'r genhadaeth yma'n rhywbeth sy'n bersonol bwysig iawn i mi.

Yn ail, hoffaf ddiolch i'r Corff Llywodraethol am eu hymroddiad gwirfoddol i'r ysgol, yn arbennig i Mr Rhys Pugh, Cadeirydd y Corff. Maent oll yn chwarae rhan hollbwysig yn herio, holi a chynnig syniadau er mwyn sicrhau'r gorau i'n plant, ac yn fwy na dim, i sicrhau fy mod i yn gwneud fy swydd yn gywir ac effeithiol! Diolch hefyd i Mr Iolo Jones am arwain yr ysgol yn fy absenoldeb drwy dymor Gwanwyn 2022.

Dymunaf ddiolch i'r Cyfeillion am eu gwaith di-flino yn codi arian i'r ysgol er mwyn gallu cefnogi teithiau, profiadau, adnoddau a digwyddiadau amrhisiadwy i blant y Gorlan; maent hwythau hefyd yn gweithio'n wirfoddol ac yn gwneud cymaint i gefnogi'r ysgol.

Rwyf yn diolch i holl staff yr ysgol am sicrhau cyn lleied o darfiad â phosibl i addysg ein plant dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn dilyn amser anodd o gyfnodau clo a dysgu o bell, llwyddwyd i gadw'r ysgol yn agored drwy sialensiau effeithiau Cofid-19. Eithriadau prin iawn oedd gorfod cau dosbarth a symud yn ôl i ddysgu o bell, oherwydd prinder athrawon llanw i gyflenwi ble nad oedd modd i staff fod yn bresennol.

Yn arferol fel rhan o'r adroddiad blynyddol, byddwn yn rhannu gwybodaeth am berfformiadau a chanlyniadau'r ysgol â chi. Ond gan ein bod yn brysur baratoi tuag at y Cwricwlwm newydd yng Nghymru, mae'r Llywodraeth wedi dirymu asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen a diwedd Cyfnod Allweddol 2 o flwyddyn academaidd 2021-2022 ymlaen. Er hyn, rydw i'n falch o gael rhannu ein blaenoriaethau ar gyfer 2022-2023 gyda chi ymhellach ymlaen yr adroddiad hwn.

Diolch i'r rheiny ohonoch a ddaeth i'r sesiwn a gynhalwyd cyn gwyliau'r Hâf i gyflwyno ac esbonio gofynion y Cwricwlwm newydd; gobeithiaf eich bod chi wedi cael budd o ddeall mwy am newidiadau addysg eich plentyn o fis Medi 2022 ymlaen. Rydym ni fel staff yn croesawu'r newid yma, gan obeithio y bydd yn parhau i sicrhau gwelliant a datblygiad parhaus i'n disgyblion.

Fel y gwyddoch, mi ydw i pob amser ar gael i helpu os oes ganddoch chi unrhyw broblem, gwestiynau, awgrymiadau - neu os ydych dim ond eisiau sgwrs! Mae croeso i chi gysylltu yn ôl y ffyrdd arferol—gyrru neges ar See-Saw, e-bostio/codi'r ffôn, neu fy nal wrth y gîat yn y bore - ceisiaf fod yno drwy pob tywydd, ond gwerthawrogaf na bydd pawb eisiau aros am sgwrs hîr yn y glaw! Dymunaf gymryd y cyfle hefyd i'ch hatgoffa bod croeso i chi ymuno mewn sgyrsiadau a dal i fyny hefo gweithgareddau dydd-i-ddydd yr ysgol ar dudalen Facebook Ysgol y Gorlan - mae gwledd o luniau a fideos yno i chi gael mwynhau.

I gloi, dymunaf flwyddyn hapus, diogel a llwyddiannus unwaith eto i bawb wrth i ni symud ymlaen â sefydlogrwydd a chysondeb am y flwyddyn sydd i ddod.

Cofion,
Eleri M Davies

Aelodau Corff Llywodraethwyr Ysgol y Gorlan

Enw	Cynrychioli	Diwedd eu cyfnod.
Mrs Eleri Davies	Pennaeth	
Rhys Pugh (Cadeirydd)	Cymuned	01.09.2022
Carys Elen Jones (Is-Gadeirydd)	Awdurdod Addysg Lleol	01.09.2022
Alison Ellis	Cymuned	01.09.2023
Anna Price-Clishem	Cymuned	01.09.2024
Aled Griffith	Cyngor Tref Porthmadog	01.10.2025
Cynghorydd Alwyn Gruffydd	Awdurdod Addysg Lleol	01.09.2022
Sion Hughes	Awdurdod Addysg Lleol	01.09.2024
Eleri Catrin Jones	Rhieni	01.11.2024
Andy Collins	Rhieni	01.09.2024
Eleri Hâf Parry	Rhieni	01.09.2023
Carys Wyn Jones	Athrawon	01.09.2024
Fiona Williams	Staff Ategol	01.09.2025

Mae'r Corff yn adlewyrchu trawsdoriad o'n cymuned lleol, ac etholir Cadeirydd newydd ar ddechrau pob blwyddyn addysgol. Prif nod y corff yw sicrhau bod ***pob*** plentyn yma yn Ysgol y Gorlan yn cael eu herio i gyflawni eu llawn potensial drwy wireddu polisïau yr Awdurdod Addysg Lleol a deddfwriaeth sy'n cael ei osod gan Llywodraeth Cymru. Mae'r Llywodraethwyr yn cyfarfod o leiaf unwaith pob tymor, ac yn ystod y cyfarfodydd, mae holl Staff yr ysgol yn cael cyfle gyflwyno gwybodaeth am bresenoldeb a chynnydd disgyblion, datblygiadau cwricwlaidd, materion staffio ac ati. Rôl y Llywodraethwyr yw holi a herio y staff ynglyn â chynlluniau, gweithgareddau a'u heffaith. Gwirfoddol yw bod yn aelod o'r Llywodraethwyr, felly diolchwn i'r Corff am eu hamser a'u hymroddiad i'r ysgol.

Penodiadau Newydd

Eleni, croesawyd Mr Aled Griffith fel cynrychiolydd Cyngor Tref Porthmadog. Hefyd, rydym yn falch bod Mrs Fiona Williams yn parhau i gynrychioli Staff Ategol yr ysgol ar ôl cael ei henwedbu gan ei chyd-weithwyr.

Ethol rhieni fel cynrychiolwyr i'r Llywodraethwyr

Pan bydd cyfnod cynrychiolydd rhiant ar y Corff yn dod i ben, cynhelir etholiad i rieni. Byddwch yn derbyn gwybodaeth llawn am y broses yma y tro nesaf bydd angen ethol rhiant (Medi 2023).

Cysylltu â'r Llywodraethwyr

Croesawn eich gohebiaeth â'r Llywodraethwyr ar bob achlysur; gallwch gysylltu gydag unrhyw ymholiad neu sylwad yr hoffwch ei holi/rannu â'r Corff Llywodraethol. Derbynnir gohebiaeth â'r Cadeirydd a'r Corff drwy law y clerc, Meleri Griffith: melerimairgriffith@gwynedd.llyw.cymru.

Nid yw'n arferol bellach i gynnal cyfarfod blynyddol â rhieni, oni bai eich bod chi yn dymuno cynnal cyfarfod. Mae modd cynnal hyd at dri chyfarfod y flwyddyn â rhieni ar ôl cael ei ddeisebu. Er mwyn cynnal y cyfarfod, mae'n rhaid i isafswm o rieni 10% o'r disgyblion sydd wedi'u cofrestru arwyddo'r ddeiseb gan nodi pam eu bod eisiau cyfarfod. Rhaid bod y cyfarfod y gofynnir amdano yn cael ei gynnal at ddibenion trafod mater sy'n ymwneud â'r ysgol.

Y Gorlan â'r gymuned agos...

Cyn y cyfnod clo, bûm yn ffodus iawn o gael gweithio yn agos â nifer o sefydliadau yn y gymuned leol. Wrth i gyfyngiadau leihau ymhellach eleni, rydym yn edrych ymlaen i gael ail-afael mewn rhai o'r gweithgareddau a phartneriaethau sydd eisioes wedi ei sefydlu.

Rydym yn hynod ffodus o leoliad yr ysgol, ac o harddwch naturiol yr ardal leol sydd hefyd yn llawn hanes. Er mwyn gwneud y mwyaf o'r ardal, ac i gyfoethogi profiadau'r plant yn yr awyr agored, mae'r flwyddyn yma wedi bod yn llawn crwydro! Bu i rai o'r plant fynd am dro dros Greigiau Dre gydag Andy Collins, rhai wedi bod i Sgŵar Tremadog i ddysgu am sefydliad William Madocks o'r pentref, eraill wedi bod am dro i bentref Bortmeirion, tra bod dosbarth Mrs Glyn wedi bod i Lan y Môr i hel 'sbwriel!

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi dechrau cael croesawu nifer o'n partneriaid yn ôl i'r ysgol. Drwy'r cysylltiadau yma gyda gwahanol aelodau o'r gymuned, rydym yn meithrin plant i fod yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus, yn ogystal â datblygu rôl gymunedol a dinesig yr ysgol.

Llynedd, roeddem yn ffodus iawn o gael cyd-weithio yn agos â PC Dewi Owen a fuodd yn ymweld â ni'n rheolaidd i sgwrsio a rhoi cyflwyniadau i'r disgyblion i gefnogi ein cwricwlwm Iechyd a Lles. Rhoddodd sylw penodol at ddiogelwch ar y wê yn dilyn cynnydd yn ei ddefnydd ar ôl y cyfnod clo. Eleni, rydym yn falch o groesawu PC Rhiannon Wright fel Swyddog Cyswllt Cymunedol Ysgolion newydd yr ysgol, ac edrychwn ymlaen at barhau'r berthynas agos rhyngddom ni â Heddlu Gogledd Cymru drwy'i gwaith.

Rydym yn ymlachïo yn nefnydd naturiol y plant o iaith arwyddo Makaton yn yr ysgol, ac yn edrych ymlaen i ddatblygu hyn ymhellach dros y flwyddyn sydd i ddod. Cafodd y staff sesiwn buddiol o ddysgu arwyddo yn gynharach yn y flwyddyn, ac rydym eisioes wedi trefnu sesiwn i arwyddo caneuon gydag arweinwyr Makaton, bydd yn rhoi cyfle i'r plant ddatblygu eu sgiliau arwyddo ymhellach.

Ennillodd yr ysgol statws 'Ddementia-gyfeillgar' cyn y cyfnod clo, ac mae hyn yn rhywbeth yr ydym hefyd yn edrych ymlaen i ddatblygu rwan bod cyfyngiadau Cofid-19 wedi eu hymlacio. Y gobaith yw drwy gryfhau'r berthynas yma, bydd disgyblion Ysgol y Gorlan yn datblygu eu rôl fel dinasyddion deallus a chynhwysfawr o fewn y gymuned leol.

Mae gennym ni berthynas agos iawn ag Ysgol Eifionydd, ac yn sicrhau cyfleoedd pontio i flynyddoedd 5 a 6 cyn iddynt symud i fyny i'r ysgol uwchradd. Drwy hyn, mae'n gwneud y newid yn haws iddynt adael y cynradd cyn dechrau ar y cam nesaf eu haddysg.

Y Gorlan â'r gymuned ehangach...

Yn ogystal â bod yn ddinasyddion gwerthfawr i'r pentref, rydym yn hybu'n holl ddisgyblion i fod yn ddinasyddion byd-eang, sydd yn falch o'u Cymreictod. Ym Mehefin 2022, buom yn ffodus iawn i gael cyd-weithio ag International Links, ac o ganlyniad, cael bod yn rhan o'r Touring Scheme ar y cyd efo Ysgol Llanystumdwy. Golyga hyn bod criw o blant y Gorlan a Llanystumdwy wedi ymweld ag ysgol San Jorge yn Murcia, Sbaen. Bu'n gyfle arbennig i'r cynrychiolwyr o Ysgol y Gorlan gael rhannu profiadau â'r disgyblion Sbaeneg, ac i gael profi sut mae dysgwyr yn dysgu dramor. Tra allan yn Sbaen, bu cyfle i ymweld ag amgueddfeydd a safleoedd hanesyddol yn Cartagena - dyma brofiad anhygoel o gael dysgu am hanes a diwylliannau tramorol.

Wrth edrych ychydig yn agosach at Dremadog, mae cyffro mawr ynglyn â'r Eisteddfod Genedlaethol sy'n dod i gylch Llŷn ac Eifionydd fis Awst, 2023. Yn ddiweddar, bu plant yr ysgol yn canu mewn cyngerdd i godi arian ar gyfer yr Eisteddfod, a bûm yn ffodus o gael ymuno yn seremoni croesawu cyn yr Hâf. Rydym yn falch o gael llongyfarch pedair cynrychiolydd o'r ysgol oedd wedi eu dewis i gymryd rhan yn nawns flodau y seremoni yn dilyn clyweliadau llynedd. Da iawn chi wir.

Yn ystod 2022, daeth y cyfle cyntaf i gael ymweld â Glan Llyn ers y cyfnod clo. Cafwyd penwythnos llawn hwyl wrth gymryd rhan mewn amryw o weithgareddau yn yr awyr agored. Er bod pawb wedi blino yn ofnadwy, bu'n benwythnos gwerth chweil, ac edrychwn ymlaen at gael taith i ganolfan yr Urdd yng Nghaerdydd yn 2023.

Bu hefyd llwyddiant i sawl disgybl yn Eisteddfod yr Urdd 2022. Dyma'r Eisteddfod yr Urdd cyntaf i'w chynnal yn gyhoeddus ers peth tro. Cystadlodd nifer o'r ysgol fel rhan o gystadleuthau unigol a thorfol, ac edrychwn ymlaen i gael cystadlu unwaith eto eleni.

Ar ddechrau'r flwyddyn eleni, mantiesiom ar y cyfle i gael ymweld â Thryweryn, gan i'r dŵr fod yn isel. Rhoddodd hyn gyfle unigryw i'r plant weld sylfaeni pentref Capel Celyn, a chael dysgu mwy am hanes boddi'r pentref a'i le yn hanes ein gwlad.

Chwaraeon yn y Gorlan...

Cyn yr Hâf, trefnwyd bod sesiynau ioga wythnosol yn cael eu cynnal i bob dosbarth gan Leisa Mererid. Cynhaliwyd 6 sesiwn drwy fis Medi a Hydref. 'Roedd yn ffordd newydd ond ond hynod effeithiol o hybu a datblygu iechyd a llês ein disgyblion a'n staff!

Wedi'r Sulgwyn, cynhaliodd yr Urdd sesiwn Rygbi ar y Traeth. Cafwyd ddiwrnod llawn hwyl wrth fwynhau diwrnod brâf (ond gwyntog!) gan gystadlu yn erbyn ysgolion y dalgylch a thu hwnt!

Fis Gorffennaf, cynhaliwyd mabolgampau'r ysgol. Am y tro cyntaf ers y cyfnod clo, bu môdd i ni wahodd rhieni/gwarchodwyr i gefnogi ac ymuno yn yr hwyl!

Llynedd, death i'r amlwg o ganlyniad i holiaduron oedd wedi ei dosbarthu i rieni/gwarchodwyr eich bod yn awyddus i gael mwy o sesiynau a chyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon. Mae hyn hefyd wedi bod yn bryder i ni fel ysgol yn dilyn cyfyngiadau Cofid. Edrychwn ymlaen i ail-afael mewn gweithgareddau a chyd-weithio efo clybiau addysg gorfforol lleol megis Clwb Rygbi Porthmadog, Clwb Pel Droed Porthmadog a Chanolfan Glaslyn wrth symud ymlaen i'r flwyddyn newydd.

Dysgu ac Addysgu

Mae'r berthynas waith i'w chanmol yma yn y Gorlan. Ers Medi 2022, rydym yn gweithio ar gwricwlwm newydd i Gymru sydd wedi ei osod gan Lywodraeth Cymru. Fel y gwyddoch, mae dosbarthiadau wedi eu hail-strwythyro i adlewyrchu'r Camau Cynnydd newydd o fewn y cwricwlwm. Fel staff, defnyddir ystod o strategaethau i dracio a monitro cynnydd disgyblion. Yn ogystal â hyn, mynychodd pob aelod o staff nifer o amryw gyrsiau ar ddatblygiadau'r cwricwlwm yn ystod y lwyddyn, er enghraifft dilyn hyfforddiant Cath Delve.

Cyn yr Hâf, gwahoddwyd ein holl rieni/gwarchodwyr i fynychu cyflwyniad ar y Cwricwlwm newydd yng Nghymru, a beth yw oblygiadau'r newid yma i addysg ein plant. Diolch i'r rheiny a fynychodd, a gobeithiwn eich bod wedi cael budd o'r sesiwn. Mae'r holl wybodaeth am y Cwricwlwm newydd ar gael ar Hwb, neu mae croeso i chi gysylltu â'r ysgol i gael ail gopi o'r cyflwyniad.

Drwy ein hadnabyddiaeth o anghenion bob plentyn, ein nôd yma yn Ysgol y Gorlan yw ymateb yn rhagweithiol i sicrhau bod pob disgybl unigol yn cyrraedd eu llawn potensial, beth bynnag eu gallu, a thyfu'n ddysgwyr annibynnol sy'n aelodau gwerthfawr o'n cymuned.

Cynllun Datblygu Ysgol

Mae gan yr ysgol gynllun dat-blygu, sef dogfen weithiol sy'n adnabod ac yn mynd i afael â'n blaenoriaethau sy'n deillio ô'n gweithdrefnau hunan-werthuso. Mae'r cynllun datblygu yn ystyried blaenoriaethau lleol a Chenedlaethol, yn ogystal â dadansoddi ein darganfyddiadau ar ôl monitro a craffu ar waith plant. Bydd ein targedau yn cael eu gwerthuso a'u addasu yn gyson er mwyn sicrhau eu bod yn briodol ar gyfer cyrraedd ein nôd.

Mae aelodau o'r Corff Llywodraethol yn gyfrifol am fonitro'r cynllun hunan-arfarnu. Yn ystod cyfarfodydd, byddent yn adrodd, holi a herio ar ddatblygiad yr ysgol yn unol â'r Cynllun Datblygu er mwyn sicrhau bod y blaenoriaethau yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

Prif Flaenoriaethau 2021-2022:

- Datblygu a gwella llafaredd Cymraeg disgyblion yr holl ysgol ar ôl nodi gostyngiad mewn safon yn dilyn y cyfnodau clo.
- Paratoi Staff, Llywodraethwyr a Rhieni at y Cwricwlwm newydd yng Nghymru.
- Sicrhau bod sgiliau cymdeithasol a llês disgyblion yn hyrwyddo dysgu effeithiol.

Prif Flaenoriaethau 2022-2023:

- Codi a datblygu lefelau ffitrwydd pob plentyn.
- Rhoi Cwricwlwm newdd yng Nghymru ar waith.
- Gwella sgiliau TGCH yn gyffredinol ar draws yr ysgol.
- Mynd ati i gryfhau rôl *pawb* (staff, plant, rhieni, llywodraethwyr ac ysgolion eraill) yn y broses o wella ein hunain.

Hybu bwyta ac yfed yn iach

Yma yn Ysgol y Gorlan, 'rydym yn ymfalchio o berthyn i Rwydwaith Ysgolion Iach Cymru, ac am fod yn berchen ar wobr ansawdd. Mae cynllun ffitrwydd yma yn y Gorlan, ac mae codi lefelau ffitrwydd pob plentyn yn flaenoriaeth ganddom ni ar gyfer 2022-2023. Byddwn yn mynd i'r afael â hyn mewn amryw o ffyrdd; er enghraifft, mae'r plant yn mwynhau cael rhedeg o amgylch y trac er mwyn cael saib fach o'r ystafell ddosbarth!

Adolygiadau i Lawlyfr a Pholisiau'r Ysgol

Mae holl bolisiau'r ysgol yn gyfredol, ac ceir eu hadolgu yn ôl y gofyn statudol a osodir gan Lywodraeth Cymru, neu yn ôl gofyn y Corff Llywodraethol. Diweddarwyd a chyhoeddwyd llawlyfr yr ysgol ar gyfer mis Medi 2022 yn gynharach yn y flwyddyn. Cysylltwch â'r ysgol os hoffech gopi o unrhyw Bolisi, neu os ydych angen unrhyw wybodaeth ychwanegol.

Trefniadau a chyflysterau toiled

Mae gan yr ysgol nifer addas o doiledau ar gyfer y disgyblion sydd wedi eu cofrestru. Mae'r toiledau yn cael eu harchwylio yn ystod y dydd, a chânt eu glanhau yn ddyddiol gan wasanaeth glanhau'r Awdurdod.

Presenoldeb a Phrydlondeb

Presenoldeb Ysgol 2021-2022: 90.2%

Targed Presenoldeb Ysgol 2022-2023: 95%+

Er bod canran absenoldebau anawdurdodegig yn isel, byddem yn parhau i fonitro pob achos yn unigol er mwyn datrys y broblem. Rydym hefyd yn rhoi sylw manwl i brydlondeb, ac yn cyd-weithio â theuluoedd er mwyn gwella a datrys unrhyw broblem.

Defnydd o'r iaith Gymraeg yn yr ysgol

Categori iaith yr ysgol - Ysgol Gynradd Gyd-addysgol Ddwyieithog.

'Rydym yn dilyn 'Polisi Iaith Gwynedd' felly Cymraeg yw iaith wreiddiol yr ysgol. Bydd y plant ieuengaf yn derbyn gwersi uniaith Gymraeg yn yr ysgol, gyda'r Saesneg yn cael ei gyflwyno'n raddol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Er mai Cymraeg yw'r brif iaith addysgol, amserlennir gwersi Saesneg, gyda rhai pynciau hefyd yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Saesneg. 'Rydym yn annog defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol yn yr ysgol. Mae'r ysgol uwchradd leol yn cynnig y cyfle i ddisgyblion barhau i dderbyn addysg gyda'r Gymraeg fel y prif gyfrwng addysgol.

Newidiodd gaterogi iaith yr ysgol yn mis Medi 2022 - ers hyn, dynodir yr ysgol yn Ysgol Categori 3, Cyfrwng Cymraeg. Ceir mwy o wybodaeth am hyn ar wefan Llywodraeth Cymru.

Trefn Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad

Amcan yr ysgol yw adnabod plant ag anghenion dysgu ychwaenol a chynhwysiad (ADYaCh) yn gynnar, a rhoi sylw bwriadus i ddisgyblion sydd ar y gofrestr. Ein gobaith yw cynnig y ddarpariaeth orau drwy gydweithio gyda'r cartref a sicrhau bod pob unigolyn yn cyrraedd eu llawn potensial. Yn yr ysgol, gwneir hyn drwy ddarparu cymorth ychwanegol o fewn yr ystafell ddosbarth, neu mewn grwpiau bychain/yn unigol drwy dargedu a chynlluniau ymyrraeth. Ceir hefyd cymorth arbenigwyr yr awdurdod lle'n briodol.

I'r perwyl hwn, dilynir y polisi ym mhob achos. Caiff Cynlluniau Datblygu Unigol eu paratoi a'u hadolygu gyda'r rhieni/gwarchodwyr, gan gynnwys llais y plentyn. Mae pob plentyn sydd ar y gofrestr wedi gwneud cynnydd llynedd.

Cyd-gysylltydd ADYaCh Ysgol y Gorlan yw Mrs Elen Beaven; gellir cysylltu â hi drwy'r Pennaeth.

Rhaid cyflwyno holl geisiadau am fynediad i'r Awdurdod Addysg Lleol yn ysgrifenedig. Hwy sydd yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ynglyn â mynediad, a cheir wybodaeth bellach am hyn ar wefan Cyngor Gwynedd. Mae gan pob plentyn yr hawl i fynediad at gwricwlwm addas a chytbwys. Gwneir unrhyw addysiadau rhesymol yn ôl y galw i sicrhau hyn.

Trefn y Dydd

Mae croeso i chwi ymweld â'r ysgol unrhyw amser, ond dylid yn gyntaf trefnu apwyntiad gyda'r Pennaeth er mwyn sicrhau digon o amser i drafod. Rydym oll yn cydweithio er lles pob plentyn yn yr ysgol.

AMSER YSGOL

9.00am – 11.00am Dosbarth Meithrin

9.00am - 3.15pm Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a 2

9.00am - 3.30pm Blynyddoedd 3 - 6

Disgwylir i'r plant gyrraedd yr ysgol ar ôl 8.50 y bore yn barod i fod yn y dosbarth am 9.00. Mae goruchwyliaeth o 8.50 ymlaen, a ni dderbynnir cyfrifoldeb am y disgyblion cyn hyn oni bai eu bod yn mynychu'r Clwb Brecwast.

Os yr ydych yn debygol o fod yn hwyr yn codi eich plant ar ddiwedd dydd, yna gwnewch pob ymdrech i'n hysbysu ni o.g.y.dda er mwyn i ni leddfu ofnau'r plentyn.

Dyddiadau Tymor 2022-2023

Gwyliau ysgol	Yn cychwyn	Yn gorffen
Hanner tymor Hydref	31 Hydref 2022	4 Tachwedd 2022
Gwyliau Nadolig	26 Rhagfyr 2022	6 Ionawr 2023
Hanner Tymor Gwanwyn	20 Chwefror 2023	24 Chwefror 2023
Gwyliau Pasg	3 Ebrill 2023	14 Ebrill 2023
Calan Mai (gŵyl banc)	1 Mai 2023	
Hanner tymor Haf	29 Mai 2023	2 Mehefin 2023
Gwyliau Haf	21 Gorffennaf 2023	31 Awst 2023

Dyddiau HMS (dim Ysgol i blant)= Medi 1af, 2ail, Hydref 28ain, Mehefin 16eg, Gorffennaf 20fed.
Mae 1 diwrnod arall nad ydy wedi ei gadarnhau eto.

CRYNODEB GRANTIAU 2021/22 — **YSGOL Y GORLAN (6612110)**

	MATH GRANT	Cyfanswm Grant £	Gwariant a gynllunnir £	Grant yn weddill £
GGA	Grant Gwella Addysg	6,323	0	6,323
	Grant Gwella Addysg - Elfen y Cyfnod Sylfaen yn unig	44,035	0	44,035
GDD	Grant Datblygu Disgyblion - PYD	11,500	0	11,500
	Grant Datblygu Disgyblion - UCD / EOTAS	0	0	0
	Grant Datblygu Disgyblion - Blynyddoedd Cynnar	2,300	0	2,300
GDP	Grant Dysgu Proffesiynol	2,525	0	2,525
	CYFANSWM	**66,683**	**0**	**66,683**

Cyllideb 2021-2022 yr ysgol:

GWEITHWYR				
Cyflogau - Athrawon	£290,166	£12,977	£303,143	swydd 0.4 o Fedi
Athrawon Llanw - Premiwm Cynllun Absenoldebau	£16,070		£16,070	
- Llanw Arall	£8,000		£8,000	
- Amser Di-gyswllt Ysgol	£0		£0	
- Anghenion Arbennig	£0		£0	
Staff Ategol - Staff Cinio	£7,102		£7,102	
- Cymorthyddion Dosbarth	£112,902	£2,527	£115,430	
- Clerigol	£2,800		£2,800	
- Clerc Llywodraethwyr	£1,500		£1,500	
- Gofalwr (Goramser)	£175		£175	
ADEILADAU				
Cynnal a Chadw	£1,694		£1,694	
Cynnal a Chadw - Adran Eddo	£3,095		£3,095	
CLG Gwasanaeth Eddo	£1,475		£1,475	
Costau Ynni - Trydan	£5,000		£5,000	
- Nwy	£2,700		£2,700	
- Dwr	£2,000		£2,000	
- Olew	£0		£0	
- Ad-daliad Rheoli Carbon	£923		£923	
Contract Glanhau	£17,970		£17,970	
Contract Gofalu	£0		£0	
Contract Cynnal Tir	£830		£830	
Defnyddiau Glanhau	£800		£800	
Offer Ymladd Tân	£150		£150	
Trethi	£8,830		£8,830	
CYFLENWADAU A GWASANAETHAU				
Lwfans y Pen	£23,000	£4,000	£27,000	Sied
Dodrefn	£3,000		£3,000	
Post	£100		£100	
Ffôn/ Ffacs a Rhwydwaith	£300		£300	
CLG Swyddfa Ardal	£4,121		£4,121	
CLG Gwasanaeth Cyllidol	£631		£631	
CLG Rheoli Banc	£218		£218	
CLG Cyflogau	£933		£933	
CLG Personel	£1,037		£1,037	
CLG Arlwyaeth	£20,284		£20,284	
CLG Llyfrgelloedd	£95		£95	
CLG Archifau	£374		£374	
Pyllau Nofio a Chwaraeon	£1,800	£2,200	£4,000	Gwersi Ychwanegol
Gwasanaeth Cerdd	£1,500		£1,500	
CLG - Cefnogaeth Technoleg	£1,673		£1,673	
Gwasanaeth Rhwydwaith Ysgolion	£2,782		£2,782	
Arian Wrth Gefn (arian heb ei ymrwymo)	£0		£0	
CYFANSWM GWARIANT	**£546,030**	**£21,705**	**£567,735**	
INCWM - Defnydd Cymunedol	£0		£0	
CYFANSWM CYLLIDEB NET	**£546,030**	**£21,705**	**£567,735**	
DYRANIAD	**£487,669**		**£487,669**	
GWAHANIAETH TYMOR HIR	**-£58,362**	**-£21,705**	**-£80,066**	
ADDASIADAU TYMOR BYR				
Defnydd o balansau	£0	£15,676	£15,676	Balansau 31/03/2021 £116,517
Grant Gwella Addysg - Cyfnod Sylfaen	£44,035		£44,035	
Grant Gwella Addysg - Arall	£6,556		£6,556	
Grant Datblygu Disgyblion - disgyblion dan 5oed	£2,300		£2,300	
Grant Datblygu Disgyblion - disgyblion 5-15oed	£11,500		£11,500	
Grant Datblygu Disgyblion - arall	£0		£0	
Grant Dysgu Proffesiynol	£0		£0	
Grant Cyflymu Dysgu - tymor yr Haf 2021	£0		£0	
GWAHANIAETH 2021/22	**£6,029**	**-£6,029**	**£0**	

Os y dymunwch gael copi cliriach o'r gyllideb, cysylltwch â'r ysgol.

Cyllideb 2022-2023 yr ysgol:

GWEITHWYR				
Cyflogau - Athrawon	£255,236	£49,178	£304,413	
Athrawon Llanw - Premiwm Cynllun Absenoldebau	£15,436		£15,436	
- Llanw Arall	£8,000	£3,000	£11,000	
- Amser Di-gyswllt Ysgol	£0		£0	
- Anghenion Arbennig	£0		£0	
Staff Ategol - Staff Cinio	£9,825		£9,825	
- Cymorthyddion Dosbarth	£140,795	-£4,856	£135,939	
- Clerigol	£2,930		£2,930	
- Clerc Llywodraethwyr	£1,500		£1,500	
- Gofalwr (Goramser)	£175		£175	
ADEILADAU				
Cynnal a Chadw	£1,820	£1,000	£2,820	
Cynnal a Chadw - Adran Eiddo	£3,018		£3,018	
CLG Gwasanaeth Eiddo	£1,490		£1,490	
Costau Ynni - Trydan	£6,180		£6,180	
- Nwy	£2,200		£2,200	
- Dwr	£2,160		£2,160	
- Olew	£0		£0	
- Ad-daliad Rheoli Carbon	£0		£0	
Contract Glanhau	£18,710		£18,710	
Contract Gofalu	£0		£0	
Contract Cynnal Tir	£830	£670	£1,500	
Defnyddiau Glanhau	£800		£800	
Offer Ymladd Tân	£150	£50	£200	
Trethi	£8,830		£8,830	
CYFLENWADAU A GWASANAETHAU				
Lwfans y Pen	£27,000	£5,000	£32,000	
Dodrefn	£3,000		£3,000	
Post	£100		£100	
Ffôn/ Ffacs a Rhwydwaith	£300		£300	
CLG Canolfan Fusnes Addysg - Craidd	£4,076		£4,076	
CLG Canolfan Fusnes Addysg - Dewisol	£1,186		£1,186	
CLG Gwasanaeth Cyllidol	£618		£618	
CLG Rheoli Banc	£220		£220	
CLG Cyflogau	£931		£931	
CLG Personel	£1,031		£1,031	
CLG Arlwyaeth	£22,090		£22,090	
CLG Llyfrgelloedd	£95		£95	
CLG Archifau	£374		£374	
Pyllau Nofio a Chwaraeon	£4,000		£4,000	
Gwasanaeth Cerdd	£1,500	£1,000	£2,500	
CLG - Cefnogaeth Technoleg	£1,646		£1,646	
Gwasanaeth Rhwydwaith Ysgolion	£2,879		£2,879	
Arian Wrth Gefn (arian heb ei ymrwymo)	£0		£0	
CYFANSWM GWARIANT	**£551,131**	**£55,041**	**£606,172**	
INCWM - Defnydd Cymunedol	£0		£0	
CYFANSWM CYLLIDEB NET	**£551,131**	**£55,041**	**£606,172**	
DYRANIAD	**£498,340**		**£498,340**	
GWAHANIAETH TYMOR HIR	**-£52,792**	**-£55,041**	**-£107,833**	

Os y dymunwch gael copi cliriach o'r gyllideb, cysylltwch â'r ysgol.